Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Penrhyndeudraeth**

**Y Caban**
**Ysgol Cefn Coch**
**Stryd yr Ysgol**
**Penrhyndeudraeth**
**LL48 6AE**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

16/02/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth a geir yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, ar unrhyw ffurf neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Mae'n rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Chylch Meithrin Penrhyndeudraeth

| | |
|---|---|
| Math o ofal a ddarperir | Gofal dydd i blant<br>Gofal dydd llawn |
| Darparwr cofrestredig | Cylch Meithrin Penrhyndeudraeth |
| Lleoedd cofrestredig | 19 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 9 Mehefin 2021 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Ydy. Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ddefnyddio'r gwasanaeth. |

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac wedi ymgartrefu ac yn mynegi eu hunain yn dda. Maent yn gwneud dewisiadau ynglŷn â sut i dreulio eu hamser ac yn rhyngweithio'n dda gyda'i gilydd. Mae’r plant yn mwynhau'r gweithgareddau sydd ar gael iddynt.

Mae staff yn cadw plant yn ddiogel ac iach drwy weithredu polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad. Maent yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i ddiogelu plant ac wedi ymgyfarwyddo â pholisi diogelu'r lleoliad. Mae gan y staff ffordd ofalgar amdanynt ac maent yn cynllunio ystod o weithgareddau a chyfleoedd priodol i helpu'r plant i ddysgu a datblygu.

Mae'r amgylchedd â digon o le ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau ei fod yn ddiogel ac yn saff a bod peryglon posibl yn cael eu monitro a'u rheoli'n briodol.

Mae’r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau yn adlewyrchu'r gofal presennol a ddarperir a bod y staff yn gwybod sut i'w gweithredu yn effeithiol.

## Llesiant

Mae'r plant yn hapus ac wedi ymgartrefu, ac yn gwneud penderfyniadau ar sut maent yn treulio eu hamser. Maent yn symud yn rhydd o gwmpas y gweithgareddau sydd ar gael ac yn dilyn eu diddordebau eu hunain. Mae'r plant yn awyddus ac yn hyderus i rannu eu syniadau, ateb cwestiynau a sgwrsio gyda staff, gan wybod y bydd y staff yn gwerthfawrogi'r hyn sydd ganddynt i'w ddweud. Maent yn gwybod y gallant ofyn am gymorth pan fydd ei angen ac yn hyderus i wneud hynny. Er enghraifft, maent yn gofyn i'r staff am gymorth i osod y gweithgareddau y maent eu heisiau neu i osod cadair er mwyn i ffrind eistedd gyda nhw yn ystod amser cinio.

Mae gan blant ymdeimlad o sicrwydd gan eu bod nhw'n gyfarwydd â'r drefn arferol. Maent yn teimlo yn gyfforddus yn gofyn i staff am gysur neu sicrwydd pan fydd angen. Maent yn awyddus i rannu eu cyflawniadau gyda nhw, gan wybod y byddant yn cael eu dathlu. Er enghraifft, maent yn awyddus i ddangos eu gwaith celf i'r staff neu'r wisg y gwnaethant ei dewis yn y gornel chwarae rôl ac yn teimlo'n falch wrth dderbyn canmoliaeth am eu hymdrechion. Maent yn gwneud ffrindiau ac yn sgwrsio gyda'i gilydd yn ystod amser chwarae ac amser cinio, gan rannu llawer o chwerthin a gwenu wrth wneud hynny.

Mae'r plant yn gwrando yn dda ac yn hapus i helpu gyda thasgau a dilyn cyfarwyddiadau. Er enghraifft, roeddent yn hapus i helpu i dacluso gweithgareddau cyn amser cinio a sefyll mewn llinell yn ôl y gofyn i olchi eu dwylo. Mae'r plant yn chwarae'n dda gyda'i gilydd. Maent yn rhannu eu teganau a chymryd eu tro yn dda. Er enghraifft, maent yn adeiladu tŷ gan ddefnyddio'r briciau glynu trwy weithio gyda'i gilydd fel tîm.

Mae'r plant yn canolbwyntio'n dda ar dasgau ac yn dangos diddordeb yn yr hyn maent yn ei wneud. Er enghraifft, canolbwyntiodd grŵp o blant yn dda pan oeddent yn creu cân gyda'i ffrindiau wrth arbrofi â'r teganau cerdd. Roeddent yn rhannu'r offerynnau'n dda ac yn mwynhau creu amrywiaeth o synau trwy ddefnyddio'r offerynnau mewn ffyrdd gwahanol.

## Gofal a Datblygiad

Gan fod hwn yn arolygiad â ffocws, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae staff yn gyfarwydd â pholisïau a gweithdrefnau’r gwasanaeth ac yn gwybod sut i'w gweithredu er mwyn cadw plant yn ddiogel ac yn iach. Mae’r staff yn deall y gweithdrefnau cywir i'w dilyn pe byddai ganddynt bryderon am blentyn ac yn gwybod pwy yw arweinydd diogelu'r lleoliad. Maent yn gwybod sut i gysylltu â swyddog diogelu'r awdurdod lleol a sut i adrodd pryder diogelu iddo. Caiff ymarferion tân eu hymarfer yn rheolaidd. Cedwir cofnodion o'r ymarferion hyn ond nad ydynt yn cynnwys yr amser a dreuliwyd i adael yr adeilad.

Mae staff yn cynllunio amryw o weithgareddau priodol ar gyfer oedrannau a chyfnodau datblygiad y plant, gan gynnwys ystod o weithgareddau yn yr awyr agored sy'n helpu'r plant i ddatblygu eu sgiliau corfforol ac i dreulio amser yn yr awyr iach.

## Yr Amgylchedd

Gan fod hwn yn arolygiad â ffocws, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae asesiadau risg wedi'u diweddaru ar waith ac mae staff yn gweithredu'r rhain yn dda, gan reoli unrhyw beryglon na ellir eu gwaredu'n briodol. Caiff yr amgylchedd ei gynnal yn dda ac mae'n darparu lle addas ar gyfer y plant.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gan fod hwn yn arolygiad â ffocws, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi gwrando ar gyngor ac argymhellion a wnaed yn ystod arolygiadau blaenorol ac wedi ymateb yn dda iddynt. Mae hyn wedi arwain at welliannau cadarnhaol ac achosion o ddiffyg cydymffurfio yn cael sylw. Mae polisi diogelu'r lleoliad yn amlinellu'n glir y gweithdrefnau cywir y dylai'r staff eu dilyn os oes ganddynt unrhyw bryderon am blentyn neu os gwneir honiad yn erbyn aelod o staff. Mae'r manylion cyswllt ar gyfer swyddog diogelu'r awdurdod lleol yn hawdd i'r staff eu cyrchu pe bai eu hangen arnynt. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad hefyd wedi annog y staff i lawrlwytho ap Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan ar eu dyfeisiau personol fel y gallant gyfeirio ato os oes angen. Mae diogelu'n eitem sefydlog ar yr agenda ym mhob cyfarfod staff a chyfarfod pwyllgor, sy'n sicrhau bod cyfleoedd rheolaidd i adolygu gweithdrefnau diogelu'r lleoliad.

## Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1. Cynnwys yr amser y mae'n ei gymryd i adael yr adeilad mewn cofnodion ymarferion tân.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |
| 22 | Gwnaeth yr unigolyn cyfrifol fethu dilyn gweithdrefnau diogelu priodol y gwasanaeth i amddiffyn plentyn rhag niwed. Cam gweithredu: rhaid i'r unigolyn cyfrifol gydymffurfio â pholisi diogelu plant y gwasanaeth a Gweithdrefnau Diogelu Cymru. | Cyflawnwyd |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y

gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

**Dyddiad cyhoeddi** 21/03/2022